ClwydAlyn

# Canllaw i Ymgeiswyr Am Lety Ar Rent



ClwydAlyn.co.uk

# Canllaw i Ymgeiswyr Am Lety Ar Rent

Diolch i chi am ofyn am ffurflen i ymgeisio am gartref gan ClwydAlyn. Mae'n bwysig i chi ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen fel ein bod yn medru asesu eich anghenion tai yn iawn - bydd ffurflen anghyflawn yn cael ei dychwelyd atoch chi.

Gobeithiwn y bydd y canllaw hwn yn ateb y rhan fwyaf o'ch cwestiynau ond os bydd arnoch angen mwy o eglurhad ffoniwch y Ganolfan Gyswllt ar Rif Ffôn **0800 1835757** neu **01745 536800**

## Pa Fath o Lety Sydd Gan ClwydAlyn?

Mae gan ClwydAlyn lety i deuluoedd, cyplau, pobl sengl a phobl hŷn a nifer gyfyngedig o adeiladau wedi eu haddasu ar gyfer pobl ag anableddau. Mae'r rhan fwyaf o'n tai yn fflatiau 1 a 2 ystafell wely a thai 2 a 3 ystafell wely. Er ein bod yn croesawu ceisiadau gan bawb mae ein gallu i helpu teuluoedd mwy neu bobl y mae arnynt angen eiddo hygyrch i gadeiriau olwyn yn gyfyngedig.

Mae ClwydAlyn yn gweithredu nifer o gynlluniau a ddyluniwyd yn benodol i ddiwallu anghenion pobl sydd dros 55 oed. Fe all cynlluniau o'r fath fod â chyfleusterau ychwanegol gan gynnwys ystafell gyfarfod, gerddi cymunedol, systemau larwm ac ati.

Mae gan ClwydAlyn eiddo yn Sir Ddinbych, Conwy, Sir y Fflint, Wrecsam, Powys ac Ynys Môn - Er mwyn gweld y mathau o eiddo sydd ar gael ym mhob ardal cyfeiriwch at y ddogfen amgaeëdig 'Ble mae gan ClwydAlyn Gartrefi'. Mae'r rhestr aros yn cael ei rheoli gan awdurdodau ar gyfer Sir Ddinbych, Conwy, Sir y Fflint, Powys ac Ynys Môn, dim ond Wrecsam fydd ein rhestr aros yn ei gynnwys.

# Pwy All Ymgeisio am Lety?

Gall unrhyw un 18 oed neu hŷn ymgeisio i gael ei gofrestru ar y rhestr aros. Gall ymgeiswyr 16 - 17 oed ymgeisio i gael eu derbyn ar y rhestr aros ond ni fyddant yn cael cynnig tenantiaeth oni bai eu bod yn medru darparu manylion gwarantydd rhent.

## Tenantiaid Presennol ClwydAlyn (Ymgeiswyr Trosglwyddo)?

Gall tenantiaid ClwydAlyn sydd wedi bod yn byw yn yr eiddo presennol am leiafswm o 2 flynedd wneud cais am gael trosglwyddo i lety arall gan ClwydAlyn.

Mewn amgylchiadau eithriadol gall ceisiadau gan denantiaid nad ydynt wedi bod yn preswylio ers dwy flynedd gael eu derbyn yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Tai. Bydd ceisiadau am drosglwyddiadau yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r un meini prawf ac a weithredir i ymgeiswyr cyffredinol.

Gall ymgeiswyr am drosglwyddiad nad ydynt yn diwallu'r meini prawf uchod fedru cyfnewid eu heiddo gyda thenant arall. Mae ClwydAlyn wedi llunio partneriaeth gyda HomeSwapper, cofrestr genedlaethol ar y we i gyfnewid tai, i helpu pobl gysylltu â thenantiaid LCC eraill sy'n dymuno cyfnewid.

Rhaid i denantiaid sy'n dymuno trosglwyddo neu gyfnewid tai fod â chyfrif rhent clir neu fod wedi cynnal cytundeb i glirio ôl-ddyledion rhent am leiafswm o 6 mis a rhaid i unrhyw ddyled sy'n weddill fod yn llai na £500. Rhaid i'r eiddo hefyd fod mewn cyflwr da cyn y bydd trosglwyddiad yn cael ei gymeradwyo.

Ni fydd tenantiaid sydd â Thenantiaethau Byrddaliad Sicr Rhagarweiniol yn cael cyfnewid eu tenantiaethau.

## Ceisiadau gan Aelodau'r Bwrdd, Staff a'u Perthnasau

Ar y ffurflen gais mae gofyn i ymgeiswyr nodi os ydynt yn perthyn i staff neu Aelodau o'r Bwrdd. Ni ellir cynnig llety i'r ymgeiswyr hyn heb gymeradwyaeth y Bwrdd Rheoli.

Rhaid dilyn gweithdrefnau ffurfiol i sicrhau nad yw'r ymgeiswyr hyn yn cael eu trin yn fwy ffafriol a rhaid i fanylion unrhyw gynigion gael eu nodi ar gofrestr gyhoeddus.

## Pwy Fydd Ddim yn Cael ei Ystyried?

**Ôl-ddyledion Rhent**
Ni fydd ymgeiswyr sydd wedi bod neu sy'n denantiaid i landlord cymdeithasol arall y mae ganddynt ddyled o fwy na £250 neu 4 wythnos o rent yn cael eu derbyn ar y rhestr aros oni bai eu bod yn medru dangos eu bod wedi cynnal cynllun talu i glirio'r ddyled am gyfnod o chwe mis o leiaf a bod y ddyled sy'n weddill yn llai na £500.

**Torri Amodau Tenantiaeth**
Ni fydd ymgeiswyr sydd wedi eu troi allan o'u tŷ gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (hy cymdeithas dai) neu awdurdod lleol am dorri amodau tenantiaeth yn y tair blynedd ddiwethaf yn cael eu derbyn ar y rhestr aros. Ar ôl y cyfnod o dair blynedd rhaid i ymgeiswyr fedru dangos eu bod wedi addasu eu hymddygiad yn unol â hynny a bydd raid iddynt ddarparu tystlythyrau i gefnogi eu cais a fydd yn ymdrin â'r materion a arweiniodd at eu gweld yn cael eu troi allan.

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**
Ni fydd ymgeiswyr sydd wedi bod yn ymwneud â digwyddiadau sylweddol o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu derbyn ar y rhestr aros oni bai eu bod yn medru dangos newid parhaus mewn ymddygiad am 12 mis o leiaf.

**Ymddygiad Troseddol**
Ni fydd ymgeiswyr sydd wedi cael eu dyfarnu'n euog o weithredoedd troseddol yn eiddo landlord cymdeithasol cofrestredig neu am weithredoedd troseddol a anelwyd at staff LCC, tenantiaid, cymdogion neu gontractwyr yn cael eu derbyn ar y rhestr aros.

# Fydd Raid i Mi Ddarparu Tystlythyrau?

Bydd, mae ClwydAlyn am sicrhau y bydd y bobl sy'n symud i'w tai yn denantiaid da ac yn gymdogion cyfrifol. Oherwydd hyn bydd 2 dystlythyr yn ofynnol ar gyfer pob ymgeisydd.

Pan fydd ymgeisydd yn neu wedi bod yn denant i landlord cymdeithasol cofrestredig ceir tystlythyrau gan y landlord. Mewn amgylchiadau eraill rhaid i'r ymgeiswyr ddarparu manylion cyswllt pobl sydd wedi eu hadnabod am o leiaf 2 flynedd y gellir cael tystlythyrau ganddynt. Peidiwch ag anfon tystlythyrau gyda'ch cais, rhowch fanylion cyswllt y bobl yr ydych yn dymuno i ni gysylltu â nhw a byddwn yn ysgrifennu atynt yn uniongyrchol.

**Gall canolwyr addas gynnwys:**

- Landlord
- Cyflogwr
- Athro/Darlithydd
- Ffrindiau/perthnasau sy'n denantiaid neu breswylwyr i ClwydAlyn yn barod
- Person 'o statws yn y gymuned' ee swyddog heddlu, meddyg, rheolwr banc, gweinidog, cynghorydd lleol, gweision sifil ac ati.

Pan fydd cais ar y cyd bydd yn ofynnol cael dau dystlythyr i bob ymgeisydd.

***Nid oes** raid i denantiaid presennol ClwydAlyn ddarparu tystlythyrau*

---

GELLIR CYMRYD CAMAU CYFREITHIOL YN ERBYN UNRHYW UNIGOLYN SY'N CAEL LLETY O GANLYNIAD I ROI GWYBODAETH FFUG NEU GAMARWEINIOL

---

# A fydd Raid i mi Ddarparu Unrhyw Wybodaeth Arall i Gefnogi fy Nghais?

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi ar eich cais am eich amgylchiadau o ran cartref. Mae'r tabl sydd ynghlwm yn rhoi enghreifftiau o'r math o dystiolaeth a fyddai'n dderbyniol.

Yn ychwanegol os ydych chi neu unrhyw un o'r bobl sy'n symud gyda chi yn feichiog bydd raid i chi ddarparu copi o'r ffurflen **Mat B1** sy'n cael ei rhoi gan eich bydwraig. Os nad ydych wedi darparu tystiolaeth gyda'ch cais ni fyddwn yn medru ystyried yr amgylchiadau yr ydych wedi eu disgrifio.

Pan fyddwch yn nesu at frig y rhestr aros am lety yn yr ardaloedd yr ydych wedi eu dewis bydd swyddog tai yn ymweld â chi i gadarnhau nad yw eich amgylchiadau wedi newid a bod y wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi yn dal yn gywir.

# Sut Fydd Fy Nghais yn Cael ei Asesu?

Mae polisi dyrannu ClwydAlyn yn ystyried anghenion tai a chefnogaeth yr ymgeiswyr.

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu a'u gosod mewn bandiau blaenoriaeth:

- Band Blaenoriaeth 1
- Band Blaenoriaeth 2
- Band Blaenoriaeth 3
- Band Blaenoriaeth 4

Bydd y band y bydd eich cais yn cael ei osod ynddo yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Amlinellir y mathau o amgylchiadau a fydd yn pennu'r flaenoriaeth a roddir i'ch cais yn y tabl sydd ynghlwm. Wedi i flaenoriaeth gael ei bennu bydd y ceisiadau yn cael eu gosod yn y band addas yn nhrefn dyddiad ar sail y dyddiad y gwnaethom ni dderbyn eich cais.

Pan fydd ymgeisydd yn medru profi anghenion lluosog yn y categorïau a ddisgrifir uchod, bydd blaenoriaeth yn cael ei bennu gan y dangosydd angen tai sy'n denu'r flaenoriaeth uchaf.

Os gallwch chi ddarparu tystiolaeth o fwy nag un dangosydd angen tai o fewn yr un band, bydd amser ychwanegol o 3 mis ar gyfer pob dangosydd ychwanegol yn cael ei roi i adlewyrchu'r angen mwyaf. Ni fydd dangosyddion ychwanegol sy'n ymddangos mewn band blaenoriaeth is yn denu dyfarniad o amser ychwanegol. Er enghraifft, bydd ymgeisydd sy'n ffoi rhag trais domestig sydd hefyd ag angen meddygol difrifol yn denu 3 mis ychwanegol o amser ciwio. Ond ni fydd ymgeisydd sy'n ffoi rhag trais domestig ond sydd hefyd mewn tŷ gorlawn yn cael amser ychwanegol.

Byddwn yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu pa fand blaenoriaeth y mae eich cais wedi cael ei osod ynddo.

### Beth os Na Fyddaf Yn Cytuno â'r Penderfyniad a Wnaed am Ba Fand y Dylid Gosod fy Nghais?

Os bydd eich cais wedi cael ei wrthod neu nad ydych yn fodlon â'r flaenoriaeth sy'n cael ei rhoi i'ch cais bydd raid i chi hysbysu'r Rheolydd Gwasanaethau Cwsmeriaid ac amlinellu'r rhesymau pam eich bod chi yn meddwl bod y penderfyniad yn anghywir. Ar ôl hyn os byddwch yn dal i deimlo eich bod wedi cael eich trin yn annheg gallwch apelio at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Tai.

### Beth sy'n Digwydd os Bydd Fy Amgylchiadau'n Newid?

Os byddwch yn newid cyfeiriad bydd raid i chi adael i ni wybod mor gyflym â phosibl. Byddwn yn anfon ffurflen gais arall atoch y bydd yn rhaid i chi ei llenwi a'i dychwelyd ynghyd ag unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny. Byddwn yn asesu eich cais ac yn eich hysbysu o'r flaenoriaeth a roddir i'ch cais. Os bydd eich cais yn cael yr un flaenoriaeth neu flaenoriaeth is bydd yn cael ei gymryd o ddyddiad eich cais gwreiddiol. Os bydd eich blaenoriaeth yn codi byddwch yn cael eich gosod yn y band uwch o'r dyddiad y gallwch ddangos bod eich amgylchiadau wedi newid.

Os byddwch yn newid cyfeiriad ac nad oes arnoch angen llety bellach gadewch i ni wybod a byddwn yn dileu eich cais o'r rhestr aros. Byddwn yn ysgrifennu atoch bob blwyddyn i wirio bod arnoch angen llety o hyd. Os na fyddwch yn ymateb i'n llythyrau bydd eich cais yn cael ei ddileu o'r rhestr aros.

Os bydd eich amgylchiadau'n newid a chithau yn yr un cyfeiriad bydd raid i chi ddweud wrthym a darparu'r dystiolaeth briodol. Os bydd y newid yn golygu y bydd eich cais yn cael ei osod ar fand uwch byddwch yn cael eich rhoi yn y band uwch o'r dyddiad y byddwch yn medru dangos bod eich amgylchiadau wedi newid.

# Rwyf yn Ddigartref neu mi Fyddaf yn Fuan – Beth ddylwn i ei Wneud?

Os ydych yn ddigartref neu eich bod yn debygol o fynd yn ddigartref yn y dyfodol agos dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol gan mai ganddynt hwy y mae'r cyfrifoldeb statudol am ddarparu llety i bobl ddigartref.

Bydd y swyddog digartrefedd yn ystyried eich achos ac yn pennu a fyddwch yn cael eich ystyried yn 'anfwriadol ddigartref' (h.y. yn ddigartref heb fod unrhyw fai arnoch chi) a bydd yn eich cynghori os bydd yn medru darparu llety dros dro i chi. Gall yr Awdurdod Lleol hefyd enwebu pobl sy'n ddigartref ar gyfer lleoedd gwag gyda ClwydAlyn fel y disgrifir uchod.

Anfonwch gopïau o unrhyw ohebiaeth y byddwch yn ei derbyn gan adran ddigartrefedd eich awdurdod lleol gan y bydd hwn yn angenrheidiol fel tystiolaeth i gefnogi eich cais.

# Sut Mae Tai yn Cael eu Dyrannu?

Mae'n orfodol i ClwydAlyn gynnig 50% o'r holl eiddo gwag i bobl sydd wedi cael eu henwebu gan yr Awdurdod Lleol o'u rhestr aros eu hunain. Er mwyn cynyddu eich cyfle o gael cynnig eiddo dylech hefyd gofrestru gyda'ch awdurdod lleol.

Yn Ynys Môn mae 100% o'r holl eiddo gwag yn cael ei osod i bobl a enwebwyd gan yr awdurdod lleol. Os ydych chi'n chwilio am lety ar Ynys Môn yn unig ni ddylech lenwi ffurflen gais ClwydAlyn. Yn hytrach dylech wneud cais i'ch Awdurdod Lleol.

Bydd y 50% o eiddo gwag sy'n weddill yn cael eu dyrannu ar y sail ganlynol:
- Band Blaenoriaeth 1 25%
- Band Blaenoriaeth 2 15%
- Band Blaenoriaeth 3 10%

Os nad oes ymgeiswyr cymwys neu rai â diddordeb yn y band perthnasol pan fydd eiddo'n dod yn wag, bydd yr eiddo'n cael ei gynnig i'r ymgeiswyr uchaf yn y band nesaf i lawr.

Dim ond os na fydd ymgeiswyr cymwys nag â diddordeb yn unrhyw un o'r categorïau eraill y bydd ymgeiswyr ym Mand Blaenoriaeth 4 yn cael cynnig eiddo.

**Beth sy'n Digwydd Os Byddaf yn Gwrthod Cynnig?**

- Fel arfer ni fydd ymgeiswyr sy'n gwrthod cynigion yn cael eu cosbi. Ond bydd ymgeiswyr sy'n gwrthod 3 chynnig rhesymol yn cael eu gwahodd i adolygu eu gofynion cyn y rhoddir rhagor o gynigion iddynt.
- Gall ymgeiswyr ym Mand Blaenoriaeth 1 sy'n gwrthod 3 chynnig rhesymol sy'n bodloni'r dewisiadau y maent wedi eu nodi gael eu symud i fand blaenoriaeth is.
- Bydd ymgeiswyr sy'n methu derbyn cynigion oherwydd eu hanallu i symud ar amser penodol yn cael gohirio eu ceisiadau heb gosb hyd y byddant yn hysbysu ClwydAlyn eu bod yn medru symud.

# Diffiniadau Bandio Blaenoriaeth

# Band Blaenoriaeth 1

| Dangosydd Angen Tai | Diffiniad | Enghreifftiau o'r Dystiolaeth sy'n Angenrheidiol |
|---|---|---|
| Ofn Trais | e.e. trais domestig, wedi dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi datblygu yn fygythiadau ac erlid, wedi dioddef trosedd dreisgar. | Llythyr cefnogi gan naill ai swyddog heddlu, Cymorth i Fenywod, Cymorth i Ddioddefwyr neu wasanaeth cefnogi tebyg. |
| Meddygol Difrifol | Ni ellir darparu gofal yn y cartref presennol. Angen eiddo i hwyluso rhyddhau o'r ysbyty. Methu defnyddio cyfleusterau toiled. Methu mynd i mewn /allan o'r cartref presennol. | Holiadur Meddygol wedi ei lenwi a llythyr cefnogi gan therapydd galwedigaethol/cydlynydd rhyddhau o'r ysbyty. |
| Eiddo Anaddas/Heb Gyfleusterau | Pan fydd datganiad bod yr eiddo yn 'anaddas' neu pan fydd problemau trwsio sy'n cael eu hystyried yn berygl i iechyd neu yn beryglus ym marn Swyddog Iechyd yr Amgylchedd | Copi o lythyr gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd |

# Band Blaenoriaeth 2

| Dangosydd Angen Tai | Diffiniad | Enghreifftiau o'r Dystiolaeth sy'n Angenrheidiol |
|---|---|---|
| Angen i roi neu dderbyn cefnogaeth neu ofal | Pan fydd ar yr ymgeisydd angen symud er mwyn rhoi cefnogaeth i aelod o'r teulu/derbynnydd gofal a enwir, neu pan fydd ar yr ymgeisydd angen gofal a chefnogaeth gan aelod o'r teulu neu ddarparwr gofal a enwir. | • Llythyr gan yr unigolyn y mae arno angen gofal yn disgrifio'r gofal angenrheidiol neu lythyr gan weithiwr cymdeithasol /Meddyg Teulu'r unigolyn y mae arno angen gofal.<br>• Dylai ymgeiswyr y mae arnynt angen symud i dderbyn gofal gynnwys llythyr gan yr unigolyn sydd i roi'r gofal yn cadarnhau ei fod yn barod i ddarparu gofal. |
| Llety Ansicr | • Ymgeisydd yn debygol o fynd yn ddigartref cyn pen 2 fis<br>• Ymgeiswyr o'r lluoedd sydd i'w rhyddhau cyn pen 2 fis,<br>• Tenantiaid Clwm y mae gofyn iddynt adael cyn pen 2 fis<br>• Landlord yn gwerthu'r eiddo a'r tenant yn mynd yn ddigartref<br>• Tenantiaeth byrddaliad ddim yn cael ei adnewyddu gan y landlord. | • Copïau o unrhyw rybuddion cyfreithiol a dderbyniwyd gan yr ymgeisydd gan landlord/benthyciwr morgais.<br>• Ar gyfer aelodau o'r lluoedd arfog neu unigolion eraill mewn llety clwm bydd yn ofynnol cael llythyr gan y cyflogwr yn cadarnhau pryd bydd y gyflogaeth yn dod i ben ac y bydd yn rhaid gadael yr eiddo |
| Digartref Gartref | Pobl sydd wedi cael eu hasesu gan yr awdurdod lleol perthnasol fel rhai 'digartref gartref' (Rhaid cael tystiolaeth) | Copi o ohebiaeth gan adran ddigartrefedd yr awdurdod lleol. |
| Digartref Sengl (heb flaenoriaeth) | Pobl sengl sy'n medru darparu cyfeiriad gohebu ond nad oes ganddynt gartref sefydlog ac sydd wedi cael eu hasesu gan yr awdurdod lleol fel rhai digartref ond dim mewn angen sy'n cael blaenoriaeth o ran deddfwriaeth ddigartrefedd. | Copi o ohebiaeth gan adran ddigartrefedd yr awdurdod lleol |
| Meddygol Cyffredinol | Pan fyddai symud i eiddo gwahanol yn arwain at welliant yn y cyflwr meddygol. Bydd y dyfarniad yn cael ei wneud yn ddibynnol ar sut y mae amodau byw'r ymgeisydd yn effeithio ar ei iechyd ac nid difrifoldeb y cyflwr. | Holiadur meddygol wedi ei lenwi |
| Teuluoedd wedi Gwahanu | Pan fydd uned deuluol sydd wedi byw gyda'i gilydd yn y gorffennol yn cael eu gorfodi i fyw ar wahân oherwydd diffyg llety addas e.e. y ddau riant yn byw gyda'u rhieni a'r partner ddim yn cael croeso neu lle byddai byw gyda'i gilydd yn arwain at weld y plant yn byw mewn llety anaddas. | • Llythyrau i gefnogi gan drydydd parti fel gweithiwr cymdeithasol neu ymwelydd iechyd.<br>• Copi o bapurau llys yn caniatáu hawl i breswylio i'r plant.<br>• Tystiolaeth yn dangos cyfeiriadau cyfredol y plant fel cardiau meddygol, cofnodion ymwelydd iechyd, gohebiaeth ysgol ac ati. |

# Band Blaenoriaeth 2 (parhad...)

| Dangosydd Angen Tai | Diffiniad | Enghreifftiau o'r Dystiolaeth sy'n Angenrheidiol |
|---|---|---|
| Gorlenwi | Mae gorlenwi yn digwydd pan fydd diffyg ystafell wely neu le i wely. Mae ar bob unigolyn angen gofod i wely ac ystafelloedd gwely ar wahân ar gyfer:<br>• Cwpwl<br>• Rhiant mewn teulu un rhiant<br>• Plant o ryw gwahanol 8 oed a hŷn | Dylai'r wybodaeth a ddarperir yn y cais am faint yr eiddo a manylion y bobl sy'n byw ynddo fod yn ddigon. Bydd raid i'r manylion hyn gael eu cadarnhau ar yr adeg y bydd yr ymgeisydd yn cael ymweliad cyn y gwneir unrhyw gynnig. |
| Tan lenwi | Pan fydd ymgeisydd yn denant i landlord cymdeithasol cofrestredig a bod ystafelloedd gwely sydd dros ben i'r gofynion a bod yr ymgeisydd yn dymuno mynd i lety llai. | Fel uchod |
| Trosglwyddiadau Rheoli | Pan fydd yr ymgeisydd yn denant i CT ClwydAlyn ac nad yw'r denantiaeth yn addas bellach (e.e. plant yn byw mewn fflatiau) neu fod y trosglwyddo yn cael ei gymeradwyo er budd creu cymunedau cynaliadwy neu i wneud y defnydd gorau o stoc tai ClwydAlyn. Dylai pob trosglwyddiad o'r fath gael ei gymeradwyo gan y Rheolydd Gwasanaethau Tenantiaeth. | Bydd yn ofynnol cael cadarnhad gan y swyddog tai a bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Rheolydd Gwasanaethau Tenantiaeth |

# Band Blaenoriaeth 3

| Dangosydd Angen Tai | Diffiniad | Enghreifftiau o'r Dystiolaeth sy'n Angenrheidiol |
|---|---|---|
| Perthynas yn Chwalu | Pan fydd perthynas yn chwalu yn ffactor sy'n cyfrannu at fod angen llety arall. | • Copi o bapurau ysgaru/gwahanu ffurfiol<br>• Llythyr gan gyn bartner yn cadarnhau bod y berthynas wedi chwalu a/neu nad yw'r ymgeisydd bellach yn byw gyda nhw. |
| Angen bod yn Nes at Waith | Pan fydd swydd wedi ei chael ac nad oes gan yr ymgeisydd gludiant a/neu nad oes cludiant cyhoeddus addas i'w lleoliad gwaith, neu pan fyddai'r amser teithio i'r gwaith yn anymarferol. | Tystiolaeth o waith a lleoliad yn angenrheidiol. |
| Anawsterau Ariannol | Pan fydd problemau ariannol gwirioneddol yn bodoli a all arwain at weld yr ymgeisydd yn colli ei gartref presennol. Gall hyn gynnwys unigolion sy'n berchnogion ddeiliaid yn wynebu gweld y banc yn ailfeddiannu'r eiddo oherwydd ôl-ddyledion morgais neu bobl yn byw mewn llety preifat ar rent sy'n methu fforddio'r rhent a godir arnynt (bydd yn ofynnol cael manylion am incwm a gwariant). | • Dylai perchenogion breswylwyr ddarparu copïau o ohebiaeth gan fenthyciwr morgais yn cadarnhau manylion yr ôl-ddyledion.<br>• Copïau o unrhyw ddogfennau cyfreithiol a roddwyd i'r ymgeisydd.<br>• Dylai tenantiaid preifat ddarparu cytundeb tenantiaeth neu debyg yn dangos manylion y rhent sy'n daladwy.<br>• Dylai pob ymgeisydd sy'n profi anawsterau ariannol ddarparu manylion incwm a gwariant gyda'r ffurflen gais. |
| Rhannu Cyfleusterau | Pan fydd yr ymgeisydd yn rhannu naill ai cegin, ystafell ymolchi neu doiled gydag aelwydydd eraill e.e. mewn tai amlddeiliadaeth. | Dylai ymgeiswyr lenwi'r ffurflen gais yn nodi pa gyfleusterau y maent yn eu rhannu a chyda phwy. Bydd hyn yn cael ei wirio ar adeg ymweliad cartref. |
| Ceisiwr Cartref Cyntaf | Pobl sy'n dymuno sefydlu cartref am y tro cyntaf nad oes ganddynt y modd i chwilio am ddewisiadau eraill o ran tai fel rhanberchenogaeth neu rentu yn breifat. | Dylai ymgeiswyr esbonio ar y ffurflen gais pam nad ydynt yn medru sicrhau unrhyw ffurf arall ar lety. |
| Symud ymlaen | Ymgeiswyr y mae arnynt angen llety symud ymlaen o hosteli neu ffurfiau eraill ar lety â chefnogaeth. | Copi o gytundeb trwydded neu debyg yn cadarnhau preswylio yn yr hostel (nid yw hyn yn angenrheidiol i ymgeiswyr sy'n byw mewn hostel a ddarperir gan ClwydAlyn). |

# Band Blaenoriaeth 4

| Dangosydd Angen Tai | Diffiniad | Enghreifftiau o'r Dystiolaeth sy'n Angenrheidiol |
|---|---|---|
| Angen Tai nad yw'n cael Blaenoriaeth | I gynnwys unigolion y mae'r awdurdod lleol wedi asesu eu bod yn ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen sy'n cael blaenoriaeth, gan dderbyn yr ymrwymiad statudol i ymdrin â'u hanghenion tai. | Copi o ohebiaeth gan adran ddigartrefedd yr awdurdod lleol. |